


Un Llais Cymru

One Voice Wales

# Arweiniad i Drafnidiaeth Gymunedol

## Cip cyflym

Mae Trafnidiaeth Gymunedol yn disgrifio nifer o wasanaethau trafnidiaeth gwahanol a ddarperir gan fudiadau nid er mwyn elw, elusennau, neu awdurdodau lleol, sy'n anelu'n bennaf at gefnogi pobl oedrannus, pobl anabl, neu bobl mewn ardaloedd anghysbell trwy sicrhau y gallant dderbyn gwasanaethau hanfodol fel gofal iechyd, siopa, a gweithgareddau cymdeithasol.

### Cynlluniau Trafnidiaeth

- Mae **Bysiau Cymunedol** yn wasanaethau bws lleol a drefnir gan grwpiau cymunedol, yn aml mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd sy'n brin o wasanaethau.
- Mae **Cynlluniau Ceir Cymunedol** yn cynnwys gyrwyr gwirfoddol yn defnyddio eu ceir eu hunain i helpu pobl heb gar neu drafnidiaeth gyhoeddus.
- Mae **Cludiant Ysbyty** yn darparu cludiant i gleifion sy'n mynd i apwyntiadau ysbyty, yn enwedig felly ar gyfer pobl heb unrhyw ddewisiadau eraill.
- Gall **Wheels to Work** helpu unigolion i fynd i'r gwaith neu hyfforddiant trwy rannu car neu ddefnyddio beiciau moped, beiciau, neu geir.
- **Dial-a-Ride** gwasanaeth trafnidiaeth drws i ddrws i'w archebu ymlaen llaw.

MiDAS MINIBUS DRIVER AWARENESS SCHEME

**Dysgwch fwy am Hyfforddiant Gyrwyr yma**

## Heriau

Mae trafnidiaeth gymunedol yn hollbwysig yng Nghymru, yn enwedig felly ar gyfer pobl sy'n methu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus arferol, gan gynnwys pobl oedrannus, pobl anabl, a phobl mewn ardaloedd gwledig. Mae'r heriau'n cynnwys tlodi yn gysylltiedig â thrafnidiaeth, unigedd cymdeithasol, effaith amgylcheddol trwy ddibynnu ar gerbydau unigol, a chostau uchel trafnidiaeth breifat, y cyfan gymaint yn waeth oherwydd yr argyfwng costau byw.

## Atebion

Mae trafnidiaeth gymunedol yn cynnig ateb hollbwysig trwy gysylltu unigolion â gwasanaethau hanfodol, lleihau unigedd cymdeithasol, a chynnig dewisiadau trafnidiaeth dibynadwy, eco-weddus. Mae'n ddewis cost-effeithiol, hyblyg, a than arweiniad y gymuned yn lle trafnidiaeth arferol, ac mae'n mynd i'r afael ag anghenion y sawl sy'n methu cael gafael ar na fforddio trafnidiaeth arferol.

## Manteision

Mae trafnidiaeth gymunedol yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol trwy wella gallu pobl i dderbyn gofal iechyd, addysg, a chyfleoedd gwaith. Mae hefyd yn gwella cynaliadwyedd amgylcheddol trwy leihau allyriadau carbon ac mae'n cyfrannu at lesiant yn gyffredinol trwy gynnig datrysiadau trafnidiaeth hygyrch a fforddiadwy.

## Camau allweddol

1. **Deall Anghenion eich Cymunedau**

   Dylech gasglu a dadansoddi tystiolaeth ar y gwasanaethau trafnidiaeth sydd ar gael ar y pryd ac anghenion y gymuned. Dylech ymgysylltu â phobl leol, busnesau, ac ardaloedd cyfagos trwy arolygon, holiaduron, digwyddiadau neu gyfarfodydd cymunedol

2. **Creu Cynllun Gweithredu**

   Dylech ddatblygu cyllideb gynhwysfawr yn cynnwys costau, dewisiadau ariannu, a rhagfynegiadau llif arian ar gyfer y gwasanaeth trafnidiaeth. Dylech greu cynllun gweithredu manwl gan amlinellu tasgau, amserlenni a chyfrifoldebau er mwyn tracio cynnydd a chadw'r prosiect ar y trywydd iawn.

3. **Chwilio am Gyfleoedd Partneriaeth**

   Cysylltwch â darparwyr Trafnidiaeth Gymunedol i weld a ellir datblygu partneriaethau neu atebion posib, ac os nad oes unrhyw ddewisiadau lleol, ceisiwch gael cymorth gan y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol, neu cydweithiwch gyda chynghorau cyfagos.

4. **Cyllid**

   Chwiliwch am unrhyw grantiau neu gyfleoedd cyllido allai fod ar gael ichi.

# Gwybodaeth Ddefnyddiol

CCC – 2045 Map Ffordd ar gyfer Trafnidiaeth Gymunedol yng Nghymru

Llwybr Newydd : Strategaeth Drafnidiaeth i Gymru

**Gall y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol roi gwybodaeth am lawer iawn o gefnogaeth arbenigol**

**CoMoUK yw'r elusen genedlaethol ar gyfer rhannu trafnidiaeth**

## Grymoedd i Ddarparu Trafnidiaeth Gymunedol

Grym i Sefydlu Cynlluniau Rhannu Ceir - Deddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 a26

Grym i wneud trefniadau ar gyfer prisiau gostyngol ar gyfer teithiau tacsi - Deddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 a28

Grym i ymchwilio'r posibilrwydd o ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a threfnu cyhoeddusrwydd ar gyfer gwasanaethau o'r fath - Deddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 a29

Grymoedd i roi grantiau ar gyfer gwasanaethau bws – Deddf Trafnidiaeth 1985 a106A

**Gall grymoedd a chyfiawnhadau wahaniaethu, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw. Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru. admin@onevoicewales.wales**

**Mae gwirfoddolwyr yn ased allweddol ac maent yn cyflawni rôl hollbwysig yn darparu cynlluniau trafnidiaeth gymunedol**

**Denu & Chefnogi Gwirfoddolwyr**

**Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol & WCVA yn darparu cefnogaeth gyda sefydlu mentrau cymunedol a hyrwyddo gwirfoddoli**

## Gwasanaethau & Phrosiectau Presennol

Mae Trafnidiaeth Gymunedol Y Trallwng yn cynnig 'Talebau Tacsi' i bobl fregus sy'n byw o fewn 10 milltir i'r dref i'w helpu i allu derbyn gwasanaethau.

**Llwyddodd Cyngor Cymuned Llanfair Clydogau & Cellan i sicrhau cyllid i gynnal prosiect prawf i ddarparu gwasanaeth bws mini i bobl i gyrraedd tref gyfagos Llanbedr Pont Steffan.**

**Mae Dolen Teifi yn trefnu mentrau trafnidiaeth gymunedol yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin**

Mae Teithio Cymunedol Sir y Fflint yn cynnwys Ffonio a Theithio, Trafnidiaeth Gymunedol Y Gororau a Gwasanaethau Fflecsi

**Mae PACTO yn cydlynu'r gwahanol gynlluniau trafnidiaeth gymunedol yn Sir Benfro**

**Llwyddodd Cyngor Cymuned Llangatwg i sicrhau cyllid i gynnal astudiaeth i'r posibilrwydd o ddefnyddio bysiau trydan a chynlluniau rhannu ceir gyda'r bwriad o sefydlu grŵp budd-ddeiliaid trafnidiaeth a mynd ati i sefydlu cynllun trafnidiaeth gymunedol o gwmpas tref ganolog Crughywel.**

Gwyliwch Weminar Arweiniad i Drafnidiaeth Gymunedol Un Llais Cymru

## Gwybodaeth am Gyllid & Chyfleoedd Posib

Awgrymiadau Ariannol gan y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol

Cyllid Cymru

Loteri Genedlaethol – Pobl & Lleoedd

Sefydliad Motability

**Mae Un Llais Cymru yn cynnig modiwl hyfforddiant ar 'Gwneud ceisiadau grant effeithiol'**

### Eisiau Gwybod Mwy?

**Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:**

CoLC@onevoicewales.wales

https://bit.ly/3KYHftK

Un Llais Cymru